

Presennol:	Huw Jones John Davies Hugh Hesketh Evans Guto Harri Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Dafydd Rhys Elin Morris Gwyn Williams Sharon Winogorski Rachel Evans Steve Thomas Carys Evans Phil Williams Bethan C. Williams	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud) (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 4 (Dirprwy Gyfarwyddwr Cynnwys a Darlledu) (Ymgynghorydd Polisi a Strategaeth) - eitem 4 (Pennaeth Dadansoddi) – eitem 5 (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 393** (a gynhaliwyd ar 10.12.15)

2.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 393 a chofnod cryno o'r Diwrnod i Ffwrdd a gynhaliwyd ar y 12fed o Dachwedd. Cymeradwywyd y cofnodion gan yr Awdurdod.

2.2 **Materion yn Codi**

[Crynodeb: Trafododd yr Awdurdod hynt cwyn cyfredol. Esboniodd JD y camau gan y pwyllgor i ymdrin â'r gŵyn mewn modd diduedd. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Awdurdod y dylai JD ymateb i'r cwynwr.]

3. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

3.1 **Dadl Seneddol dan nawdd Simon Hart**

Cyfeiriwyd at ddadl Simon Hart AS a gynhaliwyd am 2 o'r gloch y bore yn Nhŷ'r

Cyffredin. Roedd yn drawiadol i weld cymaint o aelodau seneddol yn bresennol, ac i glywed y gefnogaeth drawsbleidiol i S4C. Roedd ymateb y Gweinidog, Ed Vaizey hefyd yn ddiddorol gan iddo nodi ei fod yn gwerthfawrogi cryfder y farn am S4C ar draws y Tŷ.

Y diwrnod canlynol cafwyd cwestiwn llafar i'r Prif Weinidog, gydag ymateb cadarnhaol ganddo am gefnogaeth y Llywodraeth i S4C.

Bydd cyfleoedd pellach i holi cwestiynau ar lawr y Tŷ i John Whittingdale a Stephen Crabb yn ystod yr wythnos nesaf.

Roedd yr Aelodau'n falch iawn o'r sylw oedd wedi creu ac o natur y cyfraniadau a'r gefnogaeth amlwg i S4C. Nodwyd fod bwriad i barhau i drafod gyda gwleidyddion a rhanddeiliaid a thrafod opsiynau gyda DCMS. Bydd cyfnod etholiadau'r Cynulliad yn cychwyn ar 6 Ebrill, ac felly gobeithir y bydd cyhoeddiad cadarnhaol gan y Llywodraeth cyn hynny.

[**Crynodeb:** Eglurodd swyddogion y dewisiadau amrywiol sydd ar gael o bosib i S4C a'r DCMS.]

3.2 **Ariannu ar gyfer y dyfodol o'r Drwydded Deledu – diweddariad ar drafodaethau gydag Ymddiriedolaeth a Gweithrediaeth y BBC**

[**Crynodeb:** Rhoddodd y Cadeirydd a PW ddiweddariad ar y trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth a Bwrdd Gweithredol y BBC ar ariannu S4C yn y dyfodol. Roedd y trafodaethau yn parhau, ond roedd y ddau barti yn awyddus i ddechrau drwy adnabod y tir cyffredin. Mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi cydnabod yr angen i gytuno ar yr egwyddorion ar gyfer 2017/18 ar yr un sail â llythyr y Canghellor.]

Nododd ECS ei bod yn falch fod trafodaethau cadarnhaol yn parhau ond ei bod wedi nodi ei siom nad oedd llythyr neu ragamcanion wedi eu cyflwyno i S4C hyd yma.

3.3 **Adolygiad Syr David Clementi o drefniadau llywodraethiant y BBC**

Cyfeiriodd HJ at ei lythyr i Syr David Clementi, gan nodi fod y llythyr yn amlinellu nifer o egwyddorion sy'n bwysig i S4C ac yn ogystal yn pwysleisio fod S4C wedi cael budd o gydwethio gydag Ymddiriedolaeth y BBC.

Roedd y llythyr yn cyfeirio at opsiwn Bwrdd Unedig ar gyfer y BBC, gan nodi rhai o bryderon S4C parthed trefniant o'r fath. Pwysleisir yn y llythyr bwysigrwydd sicrhau na allai argymhellion Syr David arwain at greu cynseiliau anaddas ar gyfer trefniadau ariannu ac atebolrwydd S4C yn y dyfodol.

Nodwyd hefyd bwysigrwydd nad oedd yna elfen o ddisgresiwn o ran penderfynu ar ariannu S4C a bod y cyfrifoldeb terfynol, yn unol â'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus yn gorfod parhau i fod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na pha bynnag gorff fydd yn darparu incwm cyhoeddus i S4C yn y dyfodol.

Bydd y Cadeirydd a PW yn cyfarfod Syr David ddechrau Chwefror.

Nododd ECS ei bod hi ac Ymddiriedolwyr y Cenhedloedd wedi cyfarfod Syr David i drafod materion yn ymwneud â llywodraethiant y BBC o fewn y cenhedloedd, gan gynnwys pwysigrwydd cynrychiolaeth ar fwrdd y BBC yn y dyfodol. Roedd yn falch fod hyn wedi ei ategu yn llythyr y Cadeirydd i Clementi.

3.4 **Ymchwiliad Y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig i ddarlledu yng Nghymru**

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd ac IHJ, ynghyd ag ECS a Rona Fairhead yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 1 Chwefror. Bydd yn gyfle i danlinellu nifer o brif negeseuon S4C yn ymwneud ag ariannu i'r dyfodol ac adolygiad o anghenion y sianel.

3.5 **Cyfarfod Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr cyrff DCMS**

Mynychodd y Cadeirydd ac IHJ gyfarfod ar gyfer cadeiryddion a phrif weithredwyr cyrff DCMS ddoe. Roedd DCMS yn awyddus i drafod materion yn ymwneud â llywodraethiant ac amrywiaeth.

Cafwyd trafodaeth am broses adolygu perfformiad yr Awdurdod a nododd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cylchredeg penawdau ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau. Bydd y broses yn ystyried perfformiad yr Awdurdod, cyfraniad Aelodau a'r Cadeirydd a bydd adolygiad PWC o lywodraethiant S4C yn ffurfio rhan bwysig o'r broses eleni.

4. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 **Arbedion effeithlonrwydd – cynlluniau arfaethedig ar gyfer dygymod â chanlyniadau'r Adolygiad Gwariant**

Cyflwynodd IHJ daenlen yn cynnwys rhestr o argymhellion ar gyfer dygymod gyda'r toriad ariannol a gyhoeddwyd yn yr Adolygiad Gwariant. Esboniwyd fod y rhestr yn cynnwys enghreifftiau o'r math o doriadau y bydd angen eu cyflwyno a'i fod yn ei gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer trafodaeth ac er mwyn derbyn sylwadau ac arweiniad gan yr Awdurdod.

Nodwyd fod y toriadau arfaethedig yn canolbwyntio ar weithgareddau sefydliad S4C yn hytrach na thoriad i'r Gyllideb Cynnwys. Pe byddai toriadau pellach yn cael eu gorfodi ar S4C yna byddai toriad i'r Gyllideb Cynnwys yn anochel.

Roedd y Bwrdd Strategol wedi ystyried effaith y toriadau diweddaraf ar baratodau ar gyfer Adleoli a Chytleoli ac wedi penderfynu cyplysu'r gwaith ail-strwythuro ar gyfer Adleoli a Chytleoli gyda thoriadau'r Adolygiad Gwariant er mwyn gallu rhoi strwythur staffio a gweithredu addas yn ei le yn gynt na'r bwriad gwreiddiol. Golyga hyn y bydd amserlen y broses ail-strwythuro a pharatoi ar gyfer gweithio ar dri safle yn cael ei gwblhau ynghynt na'r bwriad gwreiddiol.

Esboniwyd fod bwriad i gwblhau'r cynllun toriadau er mwyn cyflwyno'r holl elfennau perthnasol i'r staff mewn un cyhoeddiad yn ystod mis Chwefror.

Diolchwyd i IHJ am gyflwyno'r cynlluniau a chafwyd trafodaeth am gynnwys a chyfeiriad yr argymhellion.

4.2 **Y Cynulliad**

Cyfeiriwyd at y bwriad i ddirwyn i ben ddarllediadau o'r Cynulliad a nodwyd fod hyn yn ymddangos yn argymhelliad rhesymol o gofio fod gweithgareddau'r Cynulliad ar gael ar Senedd.tv erbyn hyn. Bydd angen esbonio'r rhesymau tu ôl i'r penderfyniad i wleidyddion gan bwysleisio fod maint cyfansawdd toriadau ariannol S4C ers 2010 yn golygu y bydd gofyn gwneud penderfyniadau anodd yn ymwneud â darpariaeth S4C yn y dyfodol.

4.3 **Y Ffreutur**

Nodwyd y bwriad i gau'r ffreutur yn haf 2016 a holwyd a oedd tenantiaid S4C yn disgwyl darpariaeth bwyd a beth oedd maint cyfraniad ariannol S4C tuag at gostau'r gwasanaeth. Esboniwyd fod tenantiaid S4C yn cael manteisio ar y cyfleusterau oedd yn cael eu darparu, ond nad oedd cyfrifoldeb ar S4C i barhau i ddarparu'r gwasanaeth. Esboniwyd nad oedd S4C yn cyfrannu tuag at gostau'r cynhwysion, ond yn hytrach dim ond tuag at gostau staffio'r ffreutur.

Nodwyd fod y cynllun Adleoli yn rhagweld cau'r ffreutur ymhen oddeutu dwy flynedd ac felly mai cyfanswm costau dwy flynedd yn unig fyddai'n cael ei arbed wrth gau'r ffreutur eleni. Holwyd am yr impact ar y berthynas gyda staff wrth i'r holl doriadau gael eu cyflwyno ac awgrymwyd hwyrach y dylid ystyried ymhellach impact cau'r ffreutur yn gynnar yn erbyn maint yr arbediad dros y ddwy flynedd.

4.4 **Arbedion cyllideb yr Awdurdod**

Nodwyd ei bod yn arwydd cadarnhaol fod yr Awdurdod yn bwriadu ceisio arbedion o fewn ei gostau ei hun, gan gynnwys argymhell i DCMS beidio penodi aelod newydd i'r sedd wag.

4.5 **Ail-strwythuro**

Esboniodd IHJ fod toriadau'r Adolygiad Gwariant wedi arwain at yr angen i ail-edrych ar amserlen y gwaith cynllunio ail-strwythuro ar gyfer Adleoli a Chydleoli, ac o'r herwydd roedd y gwaith o gynllunio ar gyfer gweithio mewn tri lleoliad wedi ei flaenoriaethu.

4.6 **Adleoli a Chydleoli**

Cafwyd trafodaeth am y cynllun Cydleoli a rhannu gwasanaethau technegol ac esboniwyd fod gwaith dichonolrwydd yn parhau ar gyfer cynllun darlledu interim o ganolfan y BBC yn Llandaf cyn y bydd y pencadlys newydd yn barod. Gobeithir y bydd modd darparu adroddiad cynnydd i'r Awdurdod ar y cynlluniau interim erbyn cyfarfod fis Mawrth.

4.7 **Hyfforddiant**

Nodwyd fod Skillset yn dal i aros i glywed am eu cais ar gyfer arian WEFO a holwyd a oedd perygl y byddai penderfyniad i dorri'r gyllideb hyfforddiant yn gynamserol o ganlyniad. Esboniwyd fod yr Awdurdod wedi cymeradwyo egwyddorion y Strategaeth Hyfforddiant yn 2015 a bod y toriad arfaethedig yn gydnaws gyda'r strategaeth.

Awgrymwyd y gellid ystyried toriadau pellach i'r gyllideb hyfforddiant a darbwyllo cwmnïau sy'n derbyn cytundebau sefydlogi i ddarparu rhagor o hyfforddiant eu hunain.

4.8 **Promos**

Holwyd am y toriad arfaethedig i'r Tîm Promos ac effaith y toriad ar allu S4C i gynhyrchu ystod eang o ddeunydd hyrwyddo er mwyn cyfrannu at y nod o gynyddu cyrhaeddiad. Esboniodd GW ei fod o'r farn fod modd cyflwyno gweithdrefnau newydd i'r tîm er mwyn cynyddu effeithlonrwydd, gan ddatblygu gwaith y tîm i greu rhagor o gynnwys ffurf fer. Nodwyd nad oedd o'r farn y byddai lleihau'r gyllideb promos yn effeithio ar gyrhaeddiad neu'r her o gynyddu cyrhaeddiad gan nad oedd promos presennol S4C yn cynyddu cyrhaeddiad gan eu bod yn cael eu darlledu i gynulleidfa sydd eisoes yn gwylio'r sianel.

Roedd ystyriaeth wedi ei roi i allanoli cynhyrchu promos, ond penderfynwyd y byddai'n fwy manteisiol i gadw'r gwaith yn fewnol er mwyn rhoi hyblygrwydd i'r adrannau cyfathrebu a chynnwys ac y gellid ail-strwythuro'r adran er mwyn gweithredu'n wahanol a chreu arbedion ariannol sylweddol.

4.9 **Cydweithio gyda'r BBC**

Holwyd a oedd bwriad i geisio datblygu elfennau o'r bartneriaeth gyda'r BBC er mwyn cynnig cynnwys ar ffurf 'box-sets' drwy iStore. Esboniwyd fod trafodaethau ar y gweill gyda'r BBC er mwyn datblygu elfennau newydd yn seiliedig ar y prosiect iPlayer.

Nodwyd hefyd fod trafodaethau ar y gweill gyda Radio Cymru i weld a oes cyfleoedd i ddatblygu cynnwys a allai apelio i bobl ifanc ar draws gwasanaethau S4C a'r BBC.

4.10 **Materion Busnes**

Holwyd am y bwriad i ail-strwythuro'r adran fusnes. Esboniwyd mai'r bwriad oedd diwygio systemau'r adran fusnes er mwyn cyflwyno system ddiwygiedig ar gyfer negydu prisiau rhaglenni a symleiddio'r berthynas rhwng S4C a'i chyflenwyr gan gyflwyno strwythur newydd i'r adran a chyfuno dyletswyddau nifer o swyddi o fewn yr adran fusnes a'r adran gyllid lle mae elfen o ddyblygu cyfrifoldebau neu sgiliau'n bodoli.

Fel rhan o raglen waith yr archwilwyr mewnol, mae PWC yn rhoi ystyriaeth i'r broses gomisiynu, a bydd argymhellion PWC yn cyfrannu at y broses o ail-strwythuro'r adran a'r systemau.

Nodwyd nad oedd gweithdrefnau S4C wedi esblygu ers cyflwyno egwyddorion y Telerau Masnach o dan Ddeddf 2003, a bod darlledwyr eraill wedi addasu eu ffyrdd o weithio er mwyn adlewyrchu'r trefniadau gwahanol o ran hawliau rhaglenni.

Esboniwyd fod y cwmnïau cynhyrchu hefyd yn awyddus i symleiddio'r broses ar gyfer trafod syniad ac yna rhaglen gydag S4C o ran yr adran fusnes a'r adrannau cynnwys a chyfathrebu, gan symleiddio'r broses bresennol sy'n cynnwys 18 cam rhwng cyflwyno syniad tan y darllediad.

4.11 **Taliadau Goramser**

Roedd y Bwrdd Strategol yn awyddus i ail-negydu darpariaethau goramser er mwyn lleihau'r gwariant presennol. Roedd gwahanol adrannau o fewn S4C yn gweithredu'r polisi goramser mewn nifer o ffyrdd gwahanol ar hyn o bryd sy'n arwain at anghysondeb o ran delio gyda staff a chostau uwch o ganlyniad mewn rhai adrannau. Esboniwyd fod angen diwygio'r trefniadau ar gyfer cymorth TG tu allan i oriau gwaith er mwyn arbed costau a rhoi gwasanaeth yn ei le sy'n addas ar gyfer cynnal systemau TG sy'n sail i'r llwyfannau gwyllo ar-lein.

Cymeradwyodd yr Awdurdod gyfeiriad y cynlluniau arfaethedig a phenderfynwyd derbyn adrodd cynnydd pan yn berthnasol.

Awgrymwyd hefyd y dylai swyddogion roi ystyriaeth bellach i nifer o elfennau'r cynlluniau megis y ffreutur.

5. **Effaith Toriadau Posibl ar Wasanaeth Cynnwys S4C – Dogfen Drafod**

[Crynodeb: Cyflwynodd DRh y ddogfen drafod sy'n ystyried natur ac anghenion y gynulleidfa erbyn 2020 a'r angen i sicrhau ansawdd a gwreiddioldeb o fewn yr oriau

brig. Trafododd y cyfarfod yr oriau darlledu a phatrwm yr amserlen. Pwysleisiodd DRh y nod o ddarparu rhaglenni gwreiddiol i blant ac i dargedu gwylwyr newydd o dan 45.]

HD

Nodwyd fod swyddogion yn parhau i gynllunio ar gyfer ail-gyflwyno HD ar loeren erbyn yr hydref.

Diolchwyd i DRh am y cyflwyniad a **phenderfynwyd y dylai swyddogion barhau i ddatblygu'r cynlluniau.**

Penderfynwyd hefyd y dylai swyddogion ystyried ymhellach cydbwysedd cynnal oriau gyda chynnal safon a gwreiddioldeb, gan gynnwys ystyried materion gwerth am arian a pherfformiad a chyrhaeddiad a chyflwyno adroddiad pellach i'r Awdurdod maes o law.

6. **Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio**

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

[**Crynodeb:** Yn ystod y sgwrs gwelwyd enghreifftiau llwyddiannus o hyrwyddo rhaglenni. Roedd gwrthdweud i'w gweld gyda hyd raglenni lle'r oedd hanner awr ddim yn ddigon hir i ddrama ond awr yn rhy hir i ambell i ddogfen. Nodwyd siom nad oedd ffilm Nadolig eleni a hwyrach cafwyd gormod o raglenni cerddorol dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd.]

Nodwyd fod nifer o raglenni diddorol yn yr amserlen ar hyn o bryd, a bod hyn yn dangos fod y Strategaeth Cynnwys yn dwyn ffrwyth.

MATERION CHWARTEROL

7. **Adroddiadau o'r Pwyllgorau**

Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Cyflwynodd HHE adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr. Esboniodd fod y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar y Gofrestr Risgiau Strategol newydd drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a chafwyd trafodaeth am fformat a phwrpas y gofrestr newydd a nodwyd fod y Pwyllgor yn falch o weld y gofrestr yn datblygu i greu cysylltiadau rhwng y Blaenoriaethau Strategol, Mesuryddion Perfformiad, Amcanion Gweithredol a'r prif Risgiau Strategol. Esboniwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried sylwedd y risgiau yn ei gyfarfod nesaf pan gyflwynir fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr a fydd yn cynnwys Amcanion Gweithredol 2016/17.

Nodwyd fod angen sicrhau fod mecanwaith yn y Gofrestr Risgiau Strategol ar gyfer cyfeirio risgiau gweithredol i'r Pwyllgor pan yn briodol.

8. **Polisi S4C ar gyfer Darllediadau Gwleidyddol a Darllediadau Etholiadol 2016**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd polisi drafft ar gyfer Darllediadau Gwleidyddol a Darllediadau Etholiadol yn ystod 2016. Eglurwyd cefndir hanesyddol y grŵp o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Oherwydd amseriad Ymgynghoriad Ofcom, nid yw'n bosibl i aros am benderfyniad Ofcom eleni. Cyflwynodd y swyddogion argymhellion i'r Awdurdod ac yn dilyn y drafodaeth cymeradwyodd yr Awdurdod yr argymhellion.]

MATERION ERAILL

9. Adroddiadau Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion newydd wedi eu derbyn ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

10. Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2016/17

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod ar gyfer 2016/17.

11. Unrhyw Fater Arall

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu drafft ar gyfer sylwadau'r Awdurdod a phenderfynwyd cynnwys y gofrestr ym mhapurau'r Awdurdod ar gyfer bob cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad am bwyntiau gweithredu'r chwe mis blaenorol.

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 11 Chwefror, 2016